

Dydd Mercher, 10 Medi 2025**Hysbysiad o gyfarfod:****Cyngor Sir****Dydd Iau, 18fed Medi, 2025 at 2.00 pm,
Council Chamber - Council Chamber****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Chair's Announcement	1 - 2
4.	I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10:00am ar 17 Gorffennaf 2025	3 - 4
5.	I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14:00pm ar 17 Gorffennaf 2025	5 - 14
6.	Cwestiwn Cyhoeddus:	
6.1.	Cyflwynwyd gan Mr. Peter Short A wnaiff y Cyngor ystyried ar unwaith ddadfuddsoddi o bob cwmni 'sy'n euog' a rhoi pwysau ar Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwent Fwyaf (Torfaen), a thrwyddynt hwy ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru, i ddadfuddsoddi o bob cwmni cydryd rhan. Byddai peidio â gwneud hynny yn ymddangos yn groes i 'Bolisi Buddsoddi Cyfrifol' Sir Fynwy, Torfaen a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.	

7.	Adroddiadau i'r Cyngor	
7.1.	Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2024/25	15 - 114
8.	Cynigion i'r Cyngor	
8.1.	Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Ian Chandler Mae'r Cyngor hwn yn nodi gyda phryder difrifol y trychineb dyngarol parhaus yn Gaza a'r galwadau rhyngwladol eang am gadoediad ar unwaith. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi canfyddiadau'r Cenhedloedd Unedig a sefydliadau hawliau dynol uchel eu parch bod torcyfraith dyngarol rhyngwladol difrifol yn cael ei gyflawni, gan gynnwys targedu sifiliaid a rhwystro cymorth hanfodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau bod arian cyhoeddus, gan gynnwys ei fuddsoddiadau ei hun a rhai Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf, yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n gyson â'n gwerthoedd o heddwch, hawliau dynol, a pharch at gyfraith ryngwladol. Felly, mae'r Cyngor yn penderfynu: 1. Adolygu ei fuddsoddiadau ei hun a gofyn am adolygu rhai Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf i nodi unrhyw ddaliadau uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn cwmnïau sy'n cyflenwi arfau, technoleg filwrol, neu gymorth logistaidd sy'n galluogi torri cyfraith ryngwladol yn Gaza; 2. Gweithio gyda'i rheolwyr asedau i gymryd camau i ddod â buddsoddiadau o'r fath i ben a gofyn i Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf wneud yr un peth; a 3. Adrodd yn ôl i'r Cyngor o fewn tri mis ar y cynnydd a wnaed	
8.2.	Cyflwynwyd gan Gynghorydd Sir Emma Bryn Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Awst bod Sir Fynwy wedi ymuno â Rhwydwaith Byd-eang WHO ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oedran: • <i>Rhwydwaith WHO sy'n ymrwymo i wrando ar anghenion eu poblogaeth sy'n heneiddio, asesu a monitro eu cyfeillgarwch i oedran, a gweithio ar y cyd â phobl hŷn i greu amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol sy'n gyfeillgar i oedran.</i> Mae'r Cyngor hwn yn cytuno y bydd yn cefnogi trefi a chymunedau i ddod yn lleoedd gwell i heneiddio ac yn penderfynu cynyddu ei fuddsoddiad a chanolbwyntio ar wella seilwaith priffyrdd i wella symudedd trigolion y tu hwnt i gerbydau preifat ac i hyrwyddo'r adrodd a'r cofnodi ar dacsonomeg llwybrau troed sy'n ofynnol i gyflawni hyn o fewn y sir.	
8.3.	Cyflwynwyd gan Gynghorydd Sir Richard John Mae'r Cyngor hwn: Yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae Bridges Centre yn Nhrefynwy yn ei wneud i fywydau trigolion ledled Sir Fynwy.	

Yn galw ar y Cabinet i geisio cytundeb fforddiadwy a theg gydag ymddiriedolwyr Bridges Centre i sicrhau ei dyfodol hirdymor.

8.4. Cyflwynwyd gan Gynghorydd Sir Richard John

Mae'r Cyngor hwn:

Yn galw ar y weinyddiaeth i amlinellu ei chynlluniau i fynd i'r afael â lleoedd gwag yng nghlystyrau Trefynwy a Chas-gwent.

8.5. Cyflwynwyd gan Gynghorydd Sir Lisa Dymock

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod mynediad at ofal plant fforddiadwy yn hanfodol i rieni/gwarcheidwaid sy'n ceisio dychwelyd i'r gwaith a bod cynnig gofal plant presennol Llywodraeth Cymru yn darparu gofal plant wedi'i ariannu o dair i bedair oed, tra yn Lloegr bydd gan rieni hawl bellach i 30 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu gan ddechrau ar naw mis oed.

Mae'r Cyngor hwn yn credu na ddylai teuluoedd Sir Fynwy wynebu costau gofal plant mor uchel ac felly mae'r Cyngor hwn yn penderfynu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i alw am estyniad i'r cynnig gofal plant presennol i gyd-fynd â'r hawl yn Lloegr trwy ddarparu gofal plant am ddim o naw mis oed.

9. Cwestiynau Aelodau

9.1. O'r Cynghorydd Sir Jan Butler i'r Cynghorydd Sir Ian Chandler, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch

Mae newidiadau mewn dulliau triniaeth wedi arwain at wrthod adnewyddu preswylwyr a oedd gynt yn dal bathodynau glas am eu cyflwr meddygol. Ni fydd eu cyflwr sylfaenol na'r anabledd a achosir wedi diflannu.

Mae'n arferol, os gwrthodir cais, i ymgeiswyr gael eu cyfeirio at asesydd annibynnol: nid yw'r asesydd dynodedig, *Able2 (is-gwmni i Nottingham Rehab Ltd)*, yn weithredol mwyach yn dilyn cau'r cwmni rhiant ar 31ain Gorffennaf 2025.

Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i gywiro'r ddau fater hyn?

9.2. Gan y Cynghorydd Sir Alistair Neill i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Rhyw ddau fis ar ôl i waith adeiladu preifat gan European Energy ddechrau, gan ddefnyddio cerbydau mawr trwm ar y lonydd cul sy'n ffinio â'r B4598, nid oes cynllun rheoli traffig adeiladu ar waith o hyd, wedi'i gyfleu i drigolion lleol, ac yn cael ei weithredu. Y canlyniad fu problemau anhrefnus y gellid eu hosgoi'n llwyr i drigolion lleol, naill ai mewn 'sefyllfaoedd' gyda cherbydau mawr trwm neu gonfois, neu'n gwrthdroi cannoedd o lathenni, gan beryglu diogelwch o bosibl. A wnaiff yr Aelod Cabinet sicrhau bod y cynllun drafft yn cael ei gyfleu a'i weithredu'n llawn ar unwaith a chodi'r mater hwn gyda'r awdurdod cynllunio, Llywodraeth Cymru?

9.3.	Gan y Cynghorydd Sir Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad diogelwch ffyrdd o Stryd Welsh, Cas-gwent a addawyd ganddi hi ar ran Tîm Traffig y Cyngor yn y Cyngor llawn ym mis Mawrth eleni.	
9.4.	Gan y Cynghorydd Sir Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o gyffordd y B4235 (yn enwedig y marciau ffordd a'r arwyddion) oddi ar Heol Sant Lawrence yng Nghas-gwent a gytunwyd yn y Cyngor llawn ym mis Mawrth eleni.	
10.	Dyddiad y cyfarfod nesaf - 23ain Hydref 2025	

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
M. Newell
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Siarad yn gyhoeddus yn y Cyngor Llawn

Gall aelodau'r cyhoedd gofrestru i ofyn cwestiwn gan aelodau'r cabinet mewn cyfarfodydd llawn y cyngor. Nid oes cyfleuster i'r cyhoedd gofrestru i siarad fel rhan o'r ddadl am eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd cyngor llawn. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer pob cwestiwn mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yw 15 munud.

Ni chaniateir mwy nag un cwestiwn fesul holwr mewn cyfarfod llawn o'r cyngor a gofynnir cwestiynau yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

Er mwyn cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod llawn o'r cyngor, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner nos, tri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod, gyda phob cwestiwn yn rhoi enw a chyfeiriad yr holwr.

Gellir gwrthod cwestiynau os;

- Nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb amdano neu sy'n effeithio ar y sir
- Yw'n ddifenwol, yn wamal neu'n sarhaus
- Yw'n gwestiwn sydd i raddau helaeth yr un peth ag a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yn y 6 mis diwethaf
- Yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Pan na all person ofyn y cwestiwn i'r cyngor llawn yn bersonol, caiff y cadeirydd benderfynu darllen y cwestiwn yn uchel ar ei ran, cyfarwyddo y dylid darparu ymateb ysgrifenedig neu ddewis peidio ag ymdrin â'r cwestiwn yn ei absenoldeb. Bydd gan y rhai sy'n gofyn cwestiwn yn bersonol hawl i un cwestiwn atodol y mae'n rhaid iddo godi o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Gall y cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar y seiliau hyn.

Bydd unrhyw gwestiynau na ellir delio â nhw yn y cyfarfod oherwydd y terfyn amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn cael eu hateb drwy ymateb ysgrifenedig.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrandao ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.